



Adam a Helen Hardy yn dathlu degawd yng Ngwesty Castell Elen

Ar fore Mercher o eira ym mis Chwefror 2007, bu i'r teulu Hardy yrru 6 milltir o'u Gwesty Gwely a Brecwast ym Metws-y-Coed er mwyn cychwyn bywyd newydd yn Nolwyddelan. Roedden nhw'n edrych ymlaen yn arw ond hefyd yn teimlo hiraeth am hen gartref y teulu.

Maen nhw wedi dygymod â sawl trallod a thrafferth dros y blynyddoedd ond erbyn hyn fe allan nhw fwrw golwg yn ôl ar eu taith gan deimlo balchder am eu llwyddiannau sylweddol.

Dyma ychydig o'u llwyddiannau. . .

- Ennill statws tafarn 3 seren gyda Croeso Cymru
- Croeso i Gerddwyr a Beicwyr Croeso Gwobr gan Croeso Cymru
- Gwobr Arian Busnesau Gwyrdd ac Arweinwyr Gwyrdd TripAdvisor
- Gwobr Bwyta Allan Busnesau Cefn Gwlad Conwy am hyrwyddo Cynnyrch Lleol
- Tystysgrif Rhagoriaeth gan TripAdvisor nifer o weithiau
- Wedi eu cynnwys yng nghylchgrawn Good Housekeeping a The Times fel aelodau Clwb Bwyta Allan Y Times



The Cambrian Times, Ionawr y 7^{fed} 1876

DOSBARTHU GLO- Ers i'r Foneddiges Willoughby D'Eresby gymryd yr awenau dros Ystadau Gwydyr, yr amser yma pob blwyddyn, mae hi'n mynd ati i ddosbarthu glo i bobl dlawd mewn sawl ardal. Eleni bu iddi gynnig yr un gwasanaeth ag arfer ond fe aeth gam ymhellach. Clerigwr oedd yn arfer penderfynu pwy oedd yn derbyn y glo - arfer anfoddhaol ymysg llawer. Felly, yn lle hynny, fe benderfynodd y Foneddiges y dylai gwr bonheddig, a oedd yn fwy tebygol o fod yn ddiuedd, ddosbarthu'r glo. Yn sgil hyn, bu i bawb fendithio'r arglwyddes.